Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU

# Coronafeirws (COVID-19): canllawiau lleoliadau addysgol (fersiwn 4)

Canllawiau i ysgolion a lleoliadau addysgol eraill i ddarparu cyngor ynghylch y coronafeirws newydd COVID-19. Diweddarwyd ddiwethaf 17 Mawrth 2020.

Cynnwys


Beth sydd angen i chi wybod

Cefndir

Symptomau

Beth i'w wneud os oes rhywun yn datblygu symptomau'r coronafeirws (COVID-19) ar y safle

Cyfyngu lledaenu'r coronafeirws (COVID-19) mewn lleoliadau addysg

Glanhau a gwastraff

Adnoddau i'w defnyddio mewn lleoliadau gofal plant ac addysg

Dysgu o bell ar Hwb

Ysgol a theithiau addysgol eraill

Ymholiadau

## Beth sydd angen i chi wybod

- dylai staff, pobl ifanc a phlant aros adref os ydynt yn dioddef o beswch parhaus newydd neu dymheredd uchel i osgoi trosglwyddo i eraill. Fodd bynnag dylai grwpiau risg uchel ddilyn y **canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol** (https://llyw.cymru/coronafeirws-cadw-pellter-cymdeithasol).
- os yw staff, pobl ifanc neu blant yn datblygu peswch parhaus newydd neu dymheredd uchel, dylid eu hanfon adref.
- glanhewch a diheintio gwrthrychau ac arwynebeddau a gyffyrddir yn rheolaidd yn fwy aml nag arfer gan ddefnyddio eich cynnyrch glanhau arferol.
- goruchwyliwch blant ifanc i wneud yn siŵr eu bod yn golchi eu dwylo am 20 eiliad yn fwy aml nag arfer gyda dŵr a sebon neu hylif diheintio dwylo a daliwch beswch neu disian mewn hances bapur.
- mae posteri a chynlluniau gwersi ar hylendid dwylo cyffredinol ar gael ar **wefan eBug** (https://campaignresources.phe.gov.uk/schools) – gweler yr adran 'rhagor o wybodaeth' ar ddiwedd y ddogfen hon.

## Cefndir

Bydd y canllawiau hyn yn helpu staff i fynd i'r afael â'r coronafierws (COVID-19) mewn lleoliadau addysg. Mae hyn yn cynnwys gofal plant, ysgolion, sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach.

Gall y canllawiau hyn gael eu diweddaru wrth i'r sefyllfa newid.

## Symptomau

Symptomau mwyaf cyffredin y coronafeirws (COVID-19) yw peswch parhaus newydd neu dymheredd uchel.

I'r mwyafrif o bobl, bydd y coronafeirws (COVID-19) yn haint ysgafn.

## Beth i'w wneud os oes rhywun yn datblygu

symptomau'r coronafeirws (COVID-19) ar y safle

Os bydd unrhyw un yn mynd yn sâl gyda pheswch parhaus newydd neu dymheredd uchel mewn lleoliad addysg, dylid eu hanfon adref a'u cynghori i **ddilyn y canllawiau hunanynysu** (https://llyw.cymru/aros-gartref-canllawiau-i-aelwydydd-coronafeirws-posibl). Os oes plentyn yn aros i'w casglu, dylid eu symud os oes modd, i ystafell lle gellid eu cadw tu ôl i ddrws caeedig. Yn ddelfyrdol dylid agor ffenestr i awyru. Os nad yw'n bosib eu hynysu, symudwch nhw i ardal sydd o leiaf 2 fetr wrth bobl eraill.

Os oes angen iddynt fynd i'r tŷ bach wrth aros i gael eu casglu, dylent ddefnyddio tŷ bach ar wahân os oes modd. Dylid glanhau a diheintio'r tŷ bach gan ddefnyddio cynnyrch glanhau arferol cyn i unrhyw un arall ei ddefnyddio.

Os oes angen cyngor clinigol dylent (neu eu hathro, rhiant neu warcheidwad) fynd ar-lein i **111 Cymru** (https://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/SelfAssessments/symptomcheckers/default.aspx?ScName=CoronaVirusCOVID19&SCTId=175&locale=cy) (neu ffonio 11 os nad oes mynediad gyda nhw i'r rhyngrwyd). Mewn argyfwng, dylid ffonio 999 os ydynt yn ddifrifol wael, wedi cael anaf, neu fod risg i'w bywyd. Peidiwch ag ymweld â meddyg teulu, fferyllfa, canolfan gofal brys nag ysbyty.

Os oes aelod o staff wedi helpu rhywun sydd wedi mynd yn sâl gyda pheswch parhaus newydd neu dymheredd uchel, does dim angen iddynt fynd adref heblaw eu bod yn datblygu symptomau eu hunain. Dylent olchi eu dwylo yn drylwyr am 20 eiliad ar ôl unrhyw gyswllt gyda rhywun sy'n sâl.

Os oes camau iechyd cyhoeddus brys i'w cymryd, bydd **Tîm Diogelu Iechyd** (https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/diogelu-iechyd/tim-diogelu-iechyd/) Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cysylltu â'r sefydliad addysg, fydd yn gwneud asesiad risg ac yn cynghori ar unrhyw gamau neu ragofalon i'w cymryd.

# Cyfyngu lledaenu'r coronafeirws (COVID-19) mewn lleoliadau addysg

Gall lleoliadau addysg helpu cyfyngu lledaenu'r coronafeirws (COVID-19) drwy atgoffa pawb o'r cyngor iechyd cyhoeddus.

Dylid atgoffa staff, plant, disgyblion, myfyrwyr a theuluoedd i olchi eu dwylo am 20 eiliad yn amlach nag arfer.

Glanhewch a diheintio gwrthrychau ac arwynebeddau a gyffyrddir yn rheolaidd yn aml gan ddefnyddio eich cynnyrch glanhau arferol. Mae **posteri, taflenni a deunyddiau eraill** (https://phw.nhs.wales/topics/latest-information-on-novel-coronavirus-covid-19/coronavirus-resources/).

## Glanhau a gwastraff

Gweler y canllawiau ar **lanhau a gwaredu gwastraff** (https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-decontamination-in-non-healthcare-settings).

## Adnoddau i'w defnyddio mewn lleoliadau gofal plant ac addysg

Mae llinell ffôn arbennig ar gyfer lleoliadau addysg - ffoniwch 0800 046 8687 os oes gyda chi gwestiwn nad yw wedi ei ateb ar y dudalen hon.

Mae gan ICC **adnoddau** (https://phw.nhs.wales/topics/latest-information-on-novel-coronavirus-covid-19/coronavirus-resources/) sy’n cynnwys cyngor iechyd cyhoeddus ynghylch sut gallwch helpu stopio lledaenu'r firysau, fel y rheiny sy'n achosi coronafeirws (COVID-19), drwy gael hylendid anadlol a dwylo da.

### Adnoddau ychwanegol

Defnyddiwch **e-Bug** (https://campaignresources.phe.gov.uk/schools) i ddysgu myfyrwyr am hylendid.

#### CA1: Dwylo Dychrynllyd a Taith Tisian

**Dwylo Dychrynllyd** (https://e-bug.eu/junior_pack.aspx?cc=wal&ss=2&t=Hand%20Hygiene)

**Taith Tisian** (https://e-bug.eu/junior_pack.aspx?cc=wal&ss=2&t=Respiratory%20Hygiene)

#### CA2: Hylendid Dwylo a Hylendid Resbiradol

**Hylendid Dwylo** (https://e-bug.eu/junior_pack.aspx?cc=wal&ss=2&t=Hand%20Hygiene)

**Hylendid resbiradol** (https://e-bug.eu/junior_pack.aspx?cc=wal&ss=2&t=Respiratory%20Hygiene)

#### 14.3 CA3: Hylendid Dwylo a Hylendid Resbiradol

**Hylendid Dwylo** (https://e-bug.eu/senior_pack.aspx?cc=wal&ss=3&t=Senior%20Schools-Hand%20Hygiene)

**Hylendid resbiradol** (https://e-bug.eu/senior_pack.aspx?cc=wal&ss=3&t=Senior%20Schools-Respiratory%20Hygiene)

## Dysgu o bell ar Hwb

Gall ysgolion a gynhelir ddefnyddio **adnoddau dysgu o bell ar Hwb** (https://hwb.gov.wales/dysgu-o-bell), sy'n cynnwys:

- rhith ystafell ddosbarth
- fideo gynadledda

Bydd yr adnoddau hyn yn caniatáu i athrawon a dysgwyr sydd â dyfeisiau addas wedi'u cysylltu â'r rhyngrwyd barhau â gweithgareddau ystafell ddosbarth y tu allan i'r ysgol, yn ôl y gofyn.

## Ysgol a theithiau addysgol eraill

**Coronafeirws: canllawiau teithio i sefydliadau addysg a myfyrwyr** (https://llyw.cymru/coronafeirws-canllawiau-teithio-i-sefydliadau-addysg-myfyrwyr).

## Ymholiadau

E-bostiwch **covid19addysg@llyw.cymru** (mailto:Covid19Addysg@llyw.cymru) os oes gyda chi unrhyw gwestiynau sydd heb eu hateb ar y dudalen hon.


## Cyhoeddwyd gyntaf

26 Chwefror 2020

## Diweddarwyd ddiwethaf

2 Ebrill 2020